Swydd wag yng Nghyngor Tref Aberhonddu – Bod yn Gynghorydd

Mae angen aelod newydd o'r cyngor ar Gyngor Tref Aberhonddu. Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer y rôl hon, os ydych dros 18 oed ac yn bodloni'r meini prawf cymwys, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Chlerc y Dref ar 01874 622884 neu e-bostiwch office@brecontowncouncil.org.uk.

Beth yw cynghorydd?
Etholir cynghorwyr i gynrychioli uned ddaearyddol unigol ar y cyngor, a elwir yn ward. Mae'r swydd wag bresennol yn ward St Mary. Yn gyffredinol, caiff cynghorwyr eu hethol gan y cyhoedd bob pum mlynedd, ond mae lle cyfetholedig ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y tymor sy'n weddill.

Beth mae cynghorwyr yn ei wneud?
Mae tair prif elfen i waith cynghorwyr.

1. ***Gwneud penderfyniadau*** – Trwy gyfarfodydd a mynychu pwyllgorau gydag aelodau etholedig eraill, mae cynghorwyr yn penderfynu pa weithgareddau i'w cefnogi, ble y dylid gwario arian, pa wasanaethau y dylid eu darparu a pha bolisïau y dylid eu rhoi ar waith.

2. ***Monitro*** – Mae cynghorwyr yn gwneud yn siŵr bod eu penderfyniadau'n arwain at wasanaethau effeithlon ac effeithiol drwy gadw llygad ar ba mor dda mae pethau'n gweithio.

3. ***Cymryd rhan yn lleol*** – Fel cynrychiolwyr lleol, mae gan gynghorwyr gyfrifoldebau tuag at eu hetholwyr a'u sefydliadau lleol. Mae'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau hyn yn aml yn dibynnu ar yr hyn y mae'r cynghorydd am ei gyflawni a faint o amser sydd ar gael, a gallant gynnwys:

- Mynd i gyfarfodydd sefydliadau lleol
- Mynd i gyfarfodydd cyrff sy'n effeithio ar y gymuned ehangach
- Trafod materion ar ran aelodau'r cyhoedd

Faint o amser mae'n ei gymryd?
Yn aml iawn, mae cynghorwyr yn dweud bod eu dyletswyddau'n eu meddiannu am ryw awr neu ddwy yr wythnos. Mae rhai cynghorwyr sy'n treulio llawer mwy o amser na hyn, a rhai yn llai, ond ar y cyfan, mae bod yn gynghorydd yn ffordd bleserus o gyfrannu at eich cymuned, a helpu i'w gwneud yn lle gwell i fyw a gweithio ynddi.

Byddwch yn cael eich cefnogi yn eich rôl a bydd disgwyl i chi gyflawni hyfforddiant. Dylech fod yn gyfforddus wrth weithio'n electronig. Dylai fod gennych agwedd gadarnhaol a gweithgar, a dylech fod yn barod i weithio fel rhan o dîm. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais ar ôl darllen yr hysbysiad hwn, cysylltwch â Chlerc y Dref gan ddefnyddio'r manylion uchod.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 9am ar 13 Ionawr 2025